



5-10 munud

Amcan a Ffocws Cerddorol

Creu rhythmau; Dilyn cyfarwyddiadau; Symud i gerddoriaeth.

Offerynnau

Oes – ffyn taro (hoelbren ~20cm neu rywbeth tebyg, 2 fesul disgybl).

Hygyrchedd

Mae'r cynllun gwers yma yn addas i ddisgyblion sydd â mân anawsterau dysgu neu anawsterau dysgu difrifol.

Y gofod sydd ei angen

Bydd angen neuadd ysgol neu ystafell fawr.

1. Gweithgaredd i Gynhesu

Amser Taro

Gofynnwch i'r disgyblion sefyll mewn grŵp o'ch blaen chi. Arweiniwch ychydig o ganeuon byr cyfarwydd fel *Olwynion ar y Bws* neu *Pen, Ysgwyddau, Coesau, Traed*, gan ofyn i'r grŵp gopïo eich symudiadau yn y caneuon (symud eich dwylo mewn cylch ar gyfer 'olwynion' y bws, cyffwrdd eich pen a'ch ysgwyddau ac ati).

Gan ddefnyddio'r gân *Mi Welais Jac y Do*, gofynnwch i'r disgyblion stampio, clapio neu daro eu cluniau i guriad cyson y gân wrth iddyn nhw ei chanu.

Rhowch barau o ffyn taro i'r disgyblion. Dangoswch i'r disgyblion sut mae defnyddio'r ffyn drwy daro gwahanol guriadau iddyn nhw eu dilyn.

Curiad 1:



Curiad 2:



Ymarferwch y rhythmau hyn nes i'r disgyblion ddod yn gyfarwydd â nhw.

Canwch *Mi Welais Jac y Do* eto, ond y tro yma gofynnwch i'r disgyblion daro eu ffyn, i guriad y gân (Curiad 1).

Dylai Cynorthwywyr Addysgu gefnogi disgyblion gyda'u rhythmau taro.





10 munud

2. Cân: *Music Time*

Gofynnwch i'r disgyblion eistedd gyda'u ffyn ar y llawr. Dangoswch wahanol fathau o ddawnsio iddyn nhw drwy ddefnyddio lluniau neu gyfrifiadur. Tynnwch sylw'n benodol at ddawnsio tap, lle bydd esgidiau'r dawnsywyr yn gwneud sŵn taro sy'n ychwanegu at y gerddoriaeth – yn union fel eu ffyn taro. Yna, gwrandewch ar *Music Time*.



Chwaraewch y gân *Music Time* gan ddefnyddio teclyn rhyngweithiol *Play It!* ar wefan Bring the Noise.

Mae geiriau *Music Time* yn ymwneud ag ymuno ag amrywiaeth o ddawnsiau a symudiadau. Wrth i'r disgyblion wrando ar y gân, dangoswch rywfaint o'r symudiadau a'r dawnsiau. Peidiwch â phoeni os nad ydych chi'n gwybod sut i ddawnsio'r shifflad, mwynhewch ddawnsio i'r gerddoriaeth!

Chwaraewch y gân eto a'r tro yma gofynnwch i'r disgyblion ddawnsio gyda chi.

Gall y disgyblion hefyd ymuno drwy ddefnyddio eu ffyn taro, gan ddilyn tempo'r gân. Mae sŵn y ffyn taro yn swnio fel clic esgidiau tap!



Gall y cynorthwywyr addysgu gynnig cymorth pan fydd hynny'n briodol; er enghraifft drwy awgrymu symudiadau a dawnsiau i blant os ydyn nhw'n cael trafferth.



3. Prif Weithgaredd

 10-15 munud

Chwarae a Symud

Ar ôl ymarfer symudiadau dawnsio a sgiliau taro pawb, mae'n amser troi hynny'n berfformiad gorymdeithio!

Chwaraewch *Music Time*, a gofyn i'r disgyblion symud o amgylch y neuadd, gan daro'r curiad gyda'u ffyn a chopio symudiadau'r athro.

Efallai bydd angen Cynorthwywyr Addysgu i gefnogi disgyblion. Bydd yr athro'n parhau i daro'r rhythm a gwneud y symudiadau i'r disgyblion eu copio.

4. Diwedd y Wers

 5-10 munud

Taflu'r Bêl

Bydd y disgyblion yn eistedd ar y llawr o flaen yr athro ac yn defnyddio eu ffyn i chwarae cân/gêm taro.

Gan ddefnyddio'r gân, *Os wyt ti'n Hapus ac yn Gwybod*, bydd yr athro'n rhoi cyfarwyddiadau i'r disgyblion, er enghraifft, 'tarwch y llawr' neu 'tarwch eich pengliniau'.